## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 18 Gorffennaf

### NNDM1612 Michael German (Dwyrain De Cymru)

Cynnig o dan Reol Sefydlog 29.2 bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddod ag is-ddeddfwriaeth ddrafft gerbron yn unol â'r pwerau a roddwyd drwy orchmynion trosglwyddo o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru1998, i gyflwyno rheoliadau o dan Adran 57(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnig system dalu uniongyrchol i bobl hyn ar gyfer y gwasanaethau gofal a ddarperir ar eu cyfer.